# PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD DYDD GWENER, 26 MEHEFIN 2015

**YN BRESENNOL:**
**CYNGHORWYR:**

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyng. Lewis Davies
Cyng. Richard Dew
Cyng. Ann Griffith
Cyng. Victor Hughes

Cyngor Gwynedd

Cyng. Gwen Griffith
Cyng. John Brynmor Hughes
Cyng. Dyfrig Jones
Cyng. Dafydd Meurig
Cyng. John Pughe Roberts
Cyng. John Wyn Williams
Cyng. Owain Williams

**SWYDDOGION:**

Rhun ap Gareth Uwch Gyfreithiwr (CG)
Nia Haf Davies Rheolwr - UPCC
Gareth Jones Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd (dros dro) (CG)
WE Jones Uwch Reolwr Cyllid (CG)
Jim Woodcock Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio & Gwarchod y Cyhoedd (CSYM)
Eirian Harris Cynorthwy-ydd Cynllunio Cefnogol - UCC

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Cafodd Cyng Dafydd Meurig ei ethol fel Cadeirydd y Pwyllgor a Phanel CDLl ar y Cyd am y cyfnod 2015 – 2016

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Cafodd Cyng Richard Dew ei ethol fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor a Phanel CDLl ar y Cyd am y cyfnod 2015 - 2016.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. John Arwel Roberts (CSYM) a'r
Cyng. Nicola Roberts (CSYM)

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim

**5. MATERION BRYS**

Dim

**6. COFNODION**

Derbyniwyd Cofnodion Pwyllgor 18 Rhagfyr 2014 fel y rhai cywir a chafwyd eu harwyddo gan y Cadeirydd.

**7. DATGANIAD LLYWODRAETHU AR GYFER Y PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD**

Cyflwynwyd adroddiad gan Gareth Jones oedd yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Mae'n ofyniad statudol bellach bod datganiadau o'r math yma'n cael eu paratoi. Eglurwyd bod gofynion y Rheoliadau wedi newid ers y llynedd. Golyga hyn na fydd angen cyflwyno'r Datganiad i'r Pwyllgor eto yn ystod 2015 – 16, oni bai bod Swyddfa Archwilio Cymru yn argymell newidiadau iddo.Cafodd y Datganiad ei arwyddo gan y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

**8. CYFRIFON TERFYNNOL Y PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD (HYD DIWEDD MAWRTH 2015)**

Cyflwynwyd adroddiad gan W E Jones oedd yn ymateb i ofyniad statudol o dan Adran 12 o Ddeddf Archwilio Gyhoeddus (Cymru) 2004 i adrodd yn benodol am gyfrifo ac archwilio cyfrifon Pwyllgorau ar y Cyd. Eglurwyd fod angen cwblhau ffurflenni swyddogol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru a byddai'r ffurflenni'n destun archwiliad ar wahân. Cyflwynwyd copi o'r ffurflenni yn Atodiad A & B. Bydd yr Archwilydd Penodedig yn archwilio'r wybodaeth. Esboniwyd i'r Pwyllgor nad oes angen ail-gyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ym mis Medi 2015 (cyn iddo gael ei ardystio gan yr Archwiliwr) oherwydd newid yn y drefn, oni bai bydd angen tynnu sylw'r Pwyllgor at newidiadau argymhellir gan yr Archwilydd Penodedig.

Pwyntiau a Godwyd:

- Cafwyd ymholiad ynglŷn a gorwario a thanwario ar wahanol elfennau, gan holi os oedd yna gyfleoedd i arbed arian yn ystod 2015 – 2016.
- Esboniwyd bod gwaith yn cael ei wneud ar ddechrau pob blwyddyn ariannol er mwyn ceisio rhagweld beth fyddai'r gwariant yn ystod y flwyddyn honno. Mae hynny'n seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael am wneud gwaith tebyg o'r blaen a ffactorau eraill. Mae llwyddiant yr Uned i allu ymgymryd â gwaith ei hun yn hytrach na chomisiynu gwaith yn enghraifft o ffactor sydd yn golygu bod llai o arian wedi cael ei wario na ragwelwyd yn ystod 2014 - 2015.
- Esboniwyd fod costau helaeth i ddod cyn gellir symud y Cynllun ymlaen i'r cam mabwysiadu, h.y. costau'n gysylltiedig â'r archwiliad cyhoeddus.

Fe gafodd y datganiad ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a'i arwyddo ar ran y Pwyllgor gan y Cadeirydd.

**CADEIRYDD**